

Teitl y Swydd: Rheolwr Datblygu Campau Dŵr

Uned/Ysgol: Chwaraeon Met Caerdydd

Gradd: 5A/B

HERA: CMETS150

Prif bwrpas y swydd

Mae'r Rheolwr Datblygu Campau Dŵr yn gyfrifol am ddarparu arweinyddiaeth effeithiol, cynllunio strategol a chyfeiriad darpariaeth Campu Dŵr ledled y ddinas, gan gynnwys gweithgareddau Nofio'r Ysgol a'r ddarpariaeth Menter Nofio Am Ddim. Byddant yn gweithio gydag ystod eang o randdeiliaid a phartneriaid ar draws amrywiaeth o sectorau i gytuno ar ddulliau, meithrin perthnasoedd i wneud y mwyaf o ymgysylltiad dyfrol cymunedau a chynnal darpariaethau dyfrol ledled y ddinas.

Byddwch yn gyfrifol am reoli'r buddsoddiad mewn nofio am ddim, gan sicrhau bod model cyflawni cydlynol ar waith gan weithio gydag amrywiaeth o bartneriaid mewnol ac allanol allweddol gan gynnwys GLL, CLIC, Chwaraeon Cymru, Cyngor Caerdydd a Chlybiau Cymunedol.

Prif gyfrifoldebau a chyfraniadau

- Darparu arweinyddiaeth effeithiol, cynllunio strategol a chyfeiriad ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau nofio ledled Dinas Caerdydd.
- Gweithredu fel y partner arweiniol ar gyfer cydweithio mewn gweithgareddau dyfrol ledled Caerdydd, gan oruchwylio llywodraethu partneriaethau a llywio gwaith amlasiantaeth ar bob menter a rhaglen nofio a ariennir gan y Fenter Nofio Am Ddim.
- Nodi bylchau yn y ddarpariaeth ar gyfer grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol fel cymunedau amrywiol, pobl anabl, menywod a merched ac ardaloedd o amddifadedd er mwyn cychwyn rhaglenni ar y cyd â rheolwyr canolfannau i gynyddu cyfranogiad.
- Rheoli'r Buddsoddiad Nofio Am Ddim ar gyfer y ddinas.
- Casglu ac adolygu data dysgu nofio ysgolion gan bob darparwr nofio ysgolion a'i gyflwyno i uned ddata Llywodraeth Cymru yn flynyddol.
- Datblygu, monitro a gwerthuso elfennau o'r rhaglen chwaraeon dyfrol, wedi'u halinio a'u hintegreiddio â'r Strategaeth Gweithgarwch Corfforol Symud Mwy a Chwaraeon.
- Fel Arweinydd ym Met Caerdydd byddwch yn darparu cyfeiriad, yn galluogi gweithredu ac yn annog eraill i wneud penderfyniadau.
- Cyflawni unrhyw ddyletswyddau eraill yn ôl yr angen yn unol â gradd y rôl y gall Pennaeth Gweithgarwch Corfforol ac Iechyd ofyn amdanynt.
- Gweithredu fel hyrwyddwr brand i'r brifysgol drwy fyw ein gwerthoedd a'n hymddygiadau a sicrhau bod ein gwaith a'n dull yn gyson â'n gwerthoedd a'n harfer gorau.

Manyleb person

Cymwysterau hanfodol / Aelodaethau proffesiynol

- 5 TGAU (A*-C) neu gyfwerth.

Profiad, gwybodaeth a sgiliau hanfodol

1. Profiad o ddatblygu a gwella perthnasoedd â rhanddeiliaid yn fewnol ac yn allanol.
2. Sgiliau rheoli pobl rhagorol, gyda phrofiad amlwg o ddatblygu'r gweithlu o fewn chwaraeon a datblygu cymunedol.
3. Profiad o gyflwyno darpariaeth a chyfleoedd cynhwysol.
4. Profiad o wneud cais am geisiadau am gyllid grant a chyfleoedd nawdd a'u monitro.
5. Gwybodaeth am y cefndir a'r prif faterion wrth ddarparu chwaraeon a gweithgarwch corfforol.
6. Datblygu a gweithredu cynllun marchnata a chyfathrebu.
7. Gallu rheoli polisi a phroses iechyd a diogelwch, gan gynnwys adolygu a gwerthuso rheolaidd.
8. Gallu ysgrifennu NOP, EAP ac asesiadau risg yn unol â gofynion iechyd a diogelwch.
9. Y gallu i fonitro ac adolygu prosesau gweithrediadau busnes craidd sy'n gysylltiedig â Chwaraeon Met Caerdydd gan ddefnyddio gwybodaeth reoli.

Dymunol

1. Gradd Gyffredin/Anrhydedd neu cyfatebol.
2. Gwybodaeth am systemau'n gweithio a'r gallu i nodi dulliau i greu newid cynaliadwy ar draws partneriaethau, cymunedau a darpariaeth ddyfrol.
3. Gwybodaeth am lwybrau dyfrol a rhaglenni Dysgu Nofio
4. Cymhwyster Athro neu Hyfforddwr Nofio

Gofynion sgiliau Cymraeg

Mae'r Gymraeg yn hanfodol i'n myfyrwyr a'n staff ac mae'n rhan allweddol o'n darpariaeth a'n gwasanaethau. Ar gyfer pob swydd ym Met Caerdydd, mae hyfedredd yn y Gymraeg naill ai'n hanfodol neu'n ddymunol. Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am y lefelau drwy edrych ar ein llyfryn: [Lefelau sgiliau Cymraeg](#). Os yw sgil wedi'i rhestru fel un hanfodol yn y tabl isod, gwnewch yn siŵr eich bod yn gwneud hyn glir yn eich ffurflen gais ar-lein.

Lefel iaith a disgrifydd	Gwrando	Darllen	Siarad	Ysgrifennu
A1 – Dechreuwr Yn gallu deall a defnyddio dywediadau cyfarwydd bob dydd ac ymadroddion sylfaenol iawn yn y Gymraeg.	Dymunol	Dymunol	Dymunol	Dymunol
A2 - Defnyddiwr sylfaenol Yn gallu delio â gwybodaeth gyffredin a syml a chyfathrebu mewn Cymraeg sylfaenol.				
B1 - Defnyddiwr canolradd Yn gallu cyfathrebu, i lefel gyfyngedig, yn y Gymraeg am bethau sy'n gyfarwydd a/neu'n gysylltiedig â gwaith.				
B2 - Defnyddiwr canolradd uwch Yn gallu mynegi fy hun yn y Gymraeg ar ystod o bynciau a deall y rhan fwyaf o sgwrs â siaradwr brodorol.				
C1 - Defnyddiwr rhugl Yn gallu cyfathrebu'n rhugl yn y Gymraeg.				
C2 - Meistrolaeth Yn gallu cyfathrebu'n rhugl ar faterion cymhleth ac arbenigol yn Gymraeg.				

Gofynion y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

Mae'r swydd hon yn gofyn am wiriad DBS sylfaenol.

Gwybodaeth ategol

Mae'r Brifysgol yn sefydliad deinamig ac efallai y bydd angen newidiadau o bryd i'w gilydd. Ni fwriedir i'r disgrifiad swydd a'r manyleb person hwn fod yn gynhwysfawr.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i'r safonau ymddygiad moesegol a phroffesiynol uchaf. Felly, disgwylir i bob gweithiwr roi sylw dyledus i effaith eu hymddygiad personol ar y Brifysgol, myfyrwyr, cydweithwyr, rhanddeiliaid busnes a'n cymuned. Rhaid i bob gweithiwr ddangos ei fod yn cydymffurfio â'n Cod Ymddygiad Proffesiynol. Yn ogystal, dylai pob gweithiwr roi sylw arbennig i'w cyfrifoldebau o dan bolisïau a gweithdrefnau Prifysgol Metropolitan Caerdydd.